# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**2023 dsc 4**

## RHAN 6

CYFFREDINOL

### 51 Ystyr "amaethyddiaeth" a chyfeiriadau perthnasol

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "amaethyddiaeth" yw—

(a) garddwriaeth;

(b) ffermio cnydau âr;

(c) ffermio gwartheg godro;

(d) cadw a bridio da byw;

(e) defnyddio tir fel tir pori;

(f) defnyddio tir fel coetir fferm neu ar gyfer amaeth-goedwigaeth;

(g) amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir;

(h) tyfu fel arall blanhigion i'w gwerthu, neu ar gyfer gwerthu rhan o blanhigyn;

(i) cynnal tir mewn cyflwr sy'n ei wneud yn addas ar gyfer gweithgaredd a restrir ym mharagraffau (a) i (h).

(2) Yn is-adran (1)—

mae "da byw" yn cynnwys, ymysg pethau eraill, unrhyw anifail a gedwir i gynhyrchu bwyd, diod, olewau, ffibrau neu ledrau, neu i bori tir;

ystyr "amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir" yw tyfu planhigion mewn ecosystem gaeedig sy'n caniatáu i amrywiolion amgylcheddol (gan gynnwys tymheredd, lleithder, golau a maethynnau) gael eu rheoli.

(3) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf hon at farchnadoedd amaethyddol, busnesau amaethyddol, cynhyrchwyr amaethyddol a chynhyrchion amaethyddol i'w dehongli yn unol ag is-adran (1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 51 mewn grym ar 18.8.2023, gweler **a. 56(1)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Adran 51.